# Y Wybodaeth Ddiweddaraf Talu

Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth, mae NASUWT yn parhau i fod mewn anghydfod â Llywodraeth Cymru ynghylch tâl, yn unol â Pholisi Cynadledd NASUWT.

## Cynnig Cyflog Llywodraeth Cymru — Diweddariad

Adroddodd Papur Briffio Diweddaru Anghydfodau Cyflog NASUWT Cymru ar gyfer mis Mawrth bod y cynnig cyflog canlynol wedi'i wneud:

Ar ben y 5% a ddyfarnwyd eisoes ar gyfer 2022/23, dyfarniad wedi'i ariannu'n llawn o 3%: 1.5% wedi ei ymrwymo a 1.5% i fod heb ei ymrwymo. Mae 'heb ei ymrwymo yn golygu mai taliad untro yw hwn.

Fodd bynnag, adroddodd y Briff hefyd fod Llywodraeth Cymru wedi cytuno i alw Corff Adolygu Cyflogau Annibynnol Cymru (IWPRB) yn ôl fel y gallai ailedrych ar y cynnig sefydlog o 3.5% ar gyfer 2023/24. Mae Llywodraeth Cymru bellach wedi penderfynu nad yw'n mynd i wneud hyn ac yn hytrach wedi cynyddu'r cynnig o 3.5% ar gyfer 2023/24 i 5%.

Mae hyn yn peri pryder mawr i NASUWT gan mai'r Corff Adolygu yw'r mecanwaith y cytunwyd arno yng Nghymru ar gyfer ymgynghori ynghylch dyfarniadau cyflog i athrawon, ac i bob pwrpas nid yw'r 5% yn gynnydd i'r hyn y cytunwyd arno eisoes. Cyrhaeddwyd y ffigwr trwy wneud y taliad heb ei ymrwymo eleni o 1.5% yn ymrwymedig flwyddyn nesaf.

Fodd bynnag, nid yw'r bygythiad a wnaed gan Lywodraeth Cymru i dynnu'r cynnig yn ôl wedi dod i'r amlwg ac mae Llywodraeth Cymru wedi cytuno y gellir gwneud y taliad er bod NASUWT yn parhau i fod mewn anghydfod ynghylch tâl. Dylai aelodau weld y codiad cyflog yn eu pecynnau cyflog erbyn diwedd mis Ebrill.

## Ymrwymiadau Llwyth Gwaith Llywodraeth Cymru

Yn unigryw i'r setliad cyflog yng Nghymru, o'i gymharu â Gwledydd eraill y DU, mae cyfres o Ymrwymiadau Llwyth Gwaith y mae Llywodraeth Cymru wedi'u gwneud. Mae'r rhain yn cynnwys:

- saib ar ymgysylltu allanol (gan awdurdodau lleol a phartneriaid rhanbarthol/Gwella Ysgolion) mewn perthynas â chraffu ar gynllunio, arsylwi gwersi, teithiau dysgu a chraffu ar lyfrau;
- proses sy'n diffinio'n fanwl gweithgareddau 'wedi'u cynnwys' ac 'wedi'u heithrio' ar gyfer gweddill y flwyddyn ysgol hon;
- proses o weithio gyda phartneriaid Gwella Ysgolion ar sut y dylai cam nesaf arfer Gwella Ysgolion edrych, gan gynnwys negeseuon clir ar iaith a diwylliant 'ffug arolygiad';
- ymgynghori ar bwrpas ac ieithwedd newydd yn y canllawiau arfarnu athrawon;
- mynegi'r disgwyliad mai dim ond un Arsylwad Gwers fydd yn bodoli yn y broses Rheoli Perfformiad;
- diffinio proses y bydd athrawon yn gallu ei defnyddio i gofnodi/adrodd pan eir y tu hwnt i'r disgwyliad hwn;
- adfer y rhestr o Dasgau Gweinyddol na ddylai athrawon fod yn eu cyflawni yn Nogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol (Cymru) (STPC(W)D);
- ystyried unrhyw dasgau gweinyddol eraill nad ydynt wedi'u rhestru drwy'r IWPRB;
- defnyddio'r dulliau uchod i ailystyried sut yr ymgymerir â Gwella Ysgolion mewn ffordd sy'n lleihau llwyth gwaith, yn enwedig dyblygu gwaith;

- symleiddio'r amgylchedd Dysgu Proffesiynol trwy greu hafan i bopeth ar gyfer ymarferwyr fel bod cyfleoedd Dysgu Proffesiynol wedi'u diffinio'n symlach, yn haws cael mynediad iddynt ac yn llai beichus;
- creu proses ar gyfer symleiddio'r gweithdrefnau adrodd y disgwylir i ysgolion eu dilyn;
- ymgysylltu ag undebau ar Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) fel rhan o'r gwaith o gasglu tystiolaeth a fydd yn hysbysu'r Gweinidog am y gweithredu presennol.

Mae'n bwysig nodi bod y tri ymrwymiad cyntaf i fod i gael eu cyflawni ar ôl egwyl hanner tymor mis Chwefror. Fodd bynnag, nid yw NASUWT yn ymwybodol o unrhyw newid yn niwylliant ysgolion parthed meddylfryd "ffug arholiadol" nac ychwaith gan yr, awdurdodau lleol na'r Consortia. Fodd bynnag, yn dilyn ymgynghoriad ar y cyfnod pontio i'r Côd ADY newydd, mae Llywodraeth Cymru wedi cytuno i ymestyn y cyfnod pontio o flwyddyn.

Mae'n amlwg i NASUWT fod potensial o fewn Ymrwymiadau Llwyth Gwaith Llywodraeth Cymru i symud tuag at Gytundeb Llwyth Gwaith newydd ar gyfer athrawon yng Nghymru. Fodd bynnag, mae hefyd yn amlwg bod Llywodraeth Cymru yn cael rhywfaint o anhawster i drosi ei hymrwymiadau yn realiti. Mae swyddogion NASUWT wedi cyfarfod â Swyddogion Llywodraeth Cymru i gefnogi Llywodraeth Cymru i gadw at yr ymrwymiadau hyn a mynd ymhellach, lle bo'n bosibl, i ymdrin â'r mater llwyth gwaith ar gyfer athrawon yng Nghymru. Mater y mae pawb yn gytun sydd yn broblem ddifrifol.

Felly, mae NASUWT wedi gohirio'r ail bleidlais dros Gyflogau er mwyn gweithio ar y Cytundeb Llwyth Gwaith gyda Llywodraeth Cymru. Mae NASUWT yn bwriadu cwblhau'r gwaith hwn cyn diwedd y Flwyddyn Academaidd, a bryd hynny bydd yr Undeb yn disgwyl pecyn o gynigion clir sy'n cynnwys strategaethau gweithredu y gellir eu cyflwyno i'r aelodau. Gall hyn wedyn gael eu cyflwyno. Ynghyd â'r cynigion tâl, i'r aelodau eu hystyried. Bryd hynny, bydd penderfyniad yn cael ei wneud ynghylch ail bleidlais bosibl.

**siaradwch â ni**

Cymru-Wales@mail.nasuwt.org.uk
www.nasuwt.org.uk